


# 3. Strwythur a chynllunio



Rhan tri y pecyn gweithredu dysgu a datblygu ar gyfer gofal a chymorth dementia.

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 Mehefin 2022

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/pecyn-gweithredu-dysgu-a-datblygu-ar-gyfer-gofal-a-chymorth-dementia/3-strwythur-a-chynllunio> am y fersiwn diweddaraf.

Mae angen darparu adnoddau priodol ar gyfer strwythurau lleol a rhanbarthol a sicrhau bod ganddynt awdurdod i gymryd camau i wireddu'r weledigaeth ar gyfer dysgu a datblygu mewn gofal dementia.

Mae'n bwysig bod cynlluniau lleol a rhanbarthol yn sicrhau bod pawb yn cydweithio i ddatblygu gweithgareddau dysgu a datblygu yn unol â'r weledigaeth a'i nodau. Mae strwythurau a chynlluniau'n hanfodol i sicrhau gwerth am arian.

Pwysig

Mae tystiolaeth yn dangos bod strwythurau sefydliadol, prinder staff ar rota a rheolweithiau sy'n rhoi blaenoriaeth i ofal corfforol i gyd yn cyfyngu'r cyfle i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

(Skaalvik et al. 2010), Hayajneh a Shehadeh 2014

Er mwyn chwalu'r rhwystrau hyn i ofal 'da', dylid canolbwyntio wrth ddatblygu ymarfer ar y canlynol:

- rhyngweithio ac ymgysylltu cymdeithasol
- cynnwys gofalwyr ac aelodau eraill y teulu.

## **Beth sy'n gweithio'n dda**

Mae dulliau dysgu a datblygu yn cael eu cynllunio a'u dylunio drwy gydgyhyrchu â phobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Wrth wneud hyn, rhoddir sylw i amrywiaeth y rheini sy'n byw gyda dementia.

Mae grŵp gweithlu sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gweithgareddau dysgu a datblygu mewn gofal dementia. Mae'r grŵp hwn:

- yn cytuno ar flaenoriaethau dysgu a datblygu – y wybodaeth a'r sgiliau sydd angen eu datblygu, eu gwella a'u diweddarau
- yn cael cymorth gan bartneriaid yn yr holl feysydd iechyd a gofal cymdeithasol
- yn datblygu cynllun ar gyfer yr hyn sydd angen ei wneud a sut
- yn cael mynediad at staff dysgu a datblygu, rhaglenni, adnoddau ymarferol a chyllideb ddigonol i ddarparu'r gweithgareddau dysgu a datblygu.

Mae cynlluniau dysgu a datblygu'r gweithlu:

- wedi'u seilio ar anghenion y boblogaeth leol. Mae gwybodaeth ar gael yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth leol
- yn gynhwysfawr.
  - Maent yn ymdrin â'r canlynol:
    - anghenion yr holl staff, gwirfoddolwyr a gofalwyr yn y rhanbarth sy'n dod i gysylltiad â phobl sy'n byw gyda dementia o ddydd i ddydd
    - pob un o bum egwyddor SPACE yr RCN.
- yn seiliedig ar gryfderau ac wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol grwpiau staff ar sail gwybodaeth am beth sy'n gweithio'n ymarferol
- yn cael eu cydgynhyrchu â phobl sy'n byw gyda dementia, teuluoedd a chymunedau lleol
- yn meithrin dylanwadwyr lleol i helpu i sicrhau'r newidiadau.
  - Bydd y dylanwadwyr:
    - yn perchenogi ac yn hyrwyddo'r weledigaeth a'r camau gweithredu
    - yn rhai ym mhob rhan o'r system ac ar bob lefel. Er enghraifft, gofalwyr, clinigwyr ac ymarferwyr sydd â phrofiad o roi gofal ar waith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd â meddwl agored am newid.

- yn cynnwys cynllun (a elwir yn fframwaith yn aml) yn dangos sut bydd anghenion am ddysgu a datblygu mewn gofal dementia yn cael eu diwallu yn unol â thestunau dysgu a chanlyniadau'r *Fframwaith Gwaith Da* ar gyfer:
  - grwpiau o bobl wybodus
  - grwpiau o bobl fedrus
  - dylanwadwyr.

Mae'n bwysig bod y fframwaith yn ei gwneud yn hawdd i staff ac eraill sydd â diddordeb gael cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu.

Dylai gynnig cyfleoedd dysgu amrywiol sydd wedi'u seilio ar broses o wrando ar staff.

Pwysig

Gwelodd Gkioka et al (2020) fod darparu mynediad rhwydd i staff at addysg a hyfforddiant effeithiol o ansawdd da mewn gofal dementia yn ategu egwyddorion SPACE.

Mae canllawiau'r Coleg Nyrso Brenhinol (2019):

- yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o gynllunio a darparu hyfforddiant sydd wedi'i seilio ar ddadansoddiad trylwyr o anghenion hyfforddi ac sydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â phobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd
- yn argymhell bod staff yn cael amser a lle i gwblhau hyfforddiant perthnasol. Er mwyn gwneud newidiadau cynaliadwy mewn ymarfer clinigol, mae angen cynnal gwerthusiadau 'system gyfan' yn yr holl sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia.

## **Adnoddau defnyddiol**

- Y Coleg Nyrso Brenhinol (2019) [SPACE Principles](#). Mae'r model cysyniadol hwn yn nodi'r pum egwyddor ar gyfer gwella'r gofal am bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd.

Mae wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n cynnwys y dystiolaeth a'r arferion gorau diweddaraf. Mae'r adnodd yma ar gael yn Saesneg yn unig.

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn defnyddio [cynllun dysgu a datblygu a ffurflen trafod hyfforddiant](#), sy'n cael eu cefnogi gan bartneriaid ac mae wedi ariannu tîm dysgu a datblygu sy'n cydweithio â phartneriaid.

Mae'r tîm wedi sefydlu fframwaith dysgu a datblygu sy'n seiliedig ar y tri grŵp o bobl a nodir yn y *Fframwaith Gwaith Da*: gwybodus, medrus a dylanwadwyr. Mae'r adnodd yma ar gael yn Saesneg yn unig.

- Gellir defnyddio [Pecyn Cymhwysedd Diwylliannol](#) Diverse Cymru yn rhan o bob proses cynllunio ar gyfer dysgu a datblygu mewn gofal dementia.

Bydd yn eich helpu i gwrdd â'r anghenion diwylliannol amrywiol sydd gan bobl â dementia a'u teuluoedd yn eich ardal. Mae'r adnodd yma ar gael yn Saesneg yn unig.

- Mae [Offeryn Mapio](#), [ffurflen i'w llenwi'n gyflym](#) a [chanllawiau ar sut i'w defnyddio](#) ar gael gan Gwaith Da GWENT i'w defnyddio gan reolwyr datblygu gweithlu. Mae'r adnoddau yma ar gael yn Saesneg yn unig.

## **Yr adran nesaf: Cyflawni: darparu dysgu a datblygu mewn gofal dementia**

Ewch i'r adran nesaf: [4. Cyflawni: darparu dysgu a datblygu mewn gofal dementia.](#)